OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 422

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019

**Atebolrwyddau aelodau**

**8.**—(1) Mae'r Cynllun yn gymwys i—

(a) unrhyw atebolrwydd mewn camwedd o dan gyfraith Cymru a Lloegr sydd ar aelod o'r Cynllun i drydydd parti mewn cysylltiad ag anaf personol neu golled, neu o ganlyniad i anaf personol neu golled, a bennir ym mharagraff (2), a

(b) unrhyw atebolrwydd contractiol gan aelod o'r Cynllun—

(i) sy'n codi o ganlyniad i drefniant i ddarparu gwasanaethau iechyd perthnasol y cyfeirir atynt yn rheoliad 9(2), a

(ii) sydd wedi ei bennu'n atebolrwydd cymhwysol contractwr yn rheoliad 9(4).

(2) Yr anaf personol neu'r golled y cyfeirir ato neu ati ym mharagraff (1) yw anaf personol neu golled sy'n codi o unrhyw dor dyletswydd gofal neu mewn cysylltiad â thor dyletswydd gofal—

(a) sydd ar yr aelod i unrhyw berson mewn cysylltiad â gwneud diagnosis o unrhyw salwch neu ofal neu driniaeth unrhyw glaf, a

(b) sydd o ganlyniad i unrhyw weithred neu anweithred a bennir ym mharagraff (3).

(3) Y weithred neu'r anweithred y cyfeirir ati ym mharagraff (2) yw gweithred neu anweithred i weithredu ar ran—

(a) person y mae'r aelod wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen mewn cysylltiad ag unrhyw swyddogaeth berthnasol a ddarperir gan yr aelod, neu

(b) cyflogai neu asiant i berson y mae'r aelod wedi ei gymryd ymlaen mewn cysylltiad â darparu unrhyw swyddogaeth berthnasol.